

YSGOL CYMERAU
ADRODDIAD BLYNYDDOL Y LLYWODRAETHWYR I'R RHIENI
2015-16

Y CORFF LLYWODRAETHU

DYMA RESTR O'R AELODAU OEDD AR Y CORFF LLYWODRAETHOL YN YSTOD 2015-16

	DYDDIAD APWYNTIO	CYFNOD YN DOD I BEN
Rhiant Lywodraethwyr : Mae'r rhain yn cael eu hethol drwy bleidlais y rhieni ac yn gwasanaethu am dymor o 4 blynedd. Mr Daniel Richards (is Gadeirydd) Mrs Emyllt Prys Jones Mrs Einir Rees Jones Mrs Siân Watson	01-09-2014 01-09-2012 01-09-2013 01-09-2012	31-08-18 31-08-16 31-08-17 31-08-16
Llywodraethwyr A.A.Li. Gwynedd : Penodir y rhain gan yr Awdurdod Addysg Lleol Cyngh. Michael Sol Owen (Cadeirydd) Mr Iwan Edgar Cyngh. Hefin Underwood	01-09-2012 01-09-2012 01-12-2015	31-08-17 31-08-17 31-08-19
Llywodraethwyr Cyfetholedig : Gwahoddir hwy i ymuno â'r Corff Llywodraethol gan yr aelodau eraill fel arfer am eu gwaith yn y gymuned. Mrs Nia Williams (is Gadeirydd) Mr Aled Davies Mrs Elen Love	01-09-2015 01-09-2015 01-09-2015	31-08-18 31-08-18 31-08-16
Cyngor Tref Pwllheli : Penodiad Cyngor Tref Pwllheli Cynghorydd Evan John Hughes	01-06-2012	31-08-16
Athro Lywodraethwr : Etholir o blith yr athrawon gan yr athrawon. Mrs Helen V Jones (o Ionawr 2013)	01-01-2013	31-08-17
Staff Ategol yr ysgol : Etholir o blith staff ategol yr ysgol gan y staff ategol. Mrs Glynis Roberts	01-09-2013	31-08-17
Y Pennaeth : Mr Rhys Williams		

1. Adroddiad ar weithredu o'r adroddiad olaf

Ni alwyd cyfarfod gyda'r llywodraethwyr gan rieni yn ystod 2015-16
Ni chafwyd unrhyw ymateb i'r adroddiad blynyddol sydd ar gael ar y wefan (llythyr yn hysbysu holl rieni).
Nid oedd eitemau penodol i weithredu arnynt.

2. Y Llywodraethwyr

Gweler uchod restr o'r enwau a statws y llywodraethwyr ynghyd a'r dyddiad y daw eu cyfnod i ben.

Mae'r llywodraethwyr wedi cyfarfod yn gyson yn ystod y flwyddyn. Mae'r pennaeth wedi adrodd yn dymhorol ac yn cynnwys adroddiadau ar rifau a phresenoldeb, materion Cwricwlaidd a chanlyniadau, lles, rheolaeth, staffio a chyllid yn ogystal ag adrodd ar lwyddiant yr ysgol, gweithgareddau a digwyddiadau. Mae cofnodion llawn o'r cyfarfodydd ar gael yn yr ysgol.

3. Clerc

Clerc y Corff Llywodraethol yw Mrs Helen Jones. Gellir cysylltu â Mrs Jones drwy gysylltu â'r Ysgol. Gellir cysylltu â Chadeirydd y Corff drwy anfon nodyn wedi ei gyfeirio iddo drwy law Clerc y Corff.

4. Datganiad Ariannol

Gweler atodiad o gyllideb ddiweddaraf yr ysgol.
Cronfa'r Ysgol - Mae'r gronfa yn cael ei harchwilio yn unol â'r gofynion.
Costau Teithio a Chynhaliadau Llywodraethwyr: £0



5. Perfformiad Yr Ysgol / Canlyniadau**CANLYNIADAU ASESIADAU DIWEDD CYFNOD ALLWEDDOL****Cyfnod Allweddol 2 (Blwyddyn 6)**Ysgol Cymerau
Gwynedd

Rhif yr ALI/Ysgol:661/2125

**Gwybodaeth gymharol yr ysgol: Aseidiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol 2016
Cyfnod Allweddol 2**

Canran y bechgyn, merched a disgyblion sy'n cyflawni'r lefel disgwyliedig o leiaf (Lefel 4+):

	Bechgyn			Merched			Disgyblion		
	Ysgol 2016	ALI 2015	Cymru 2015	Ysgol 2016	ALI 2015	Cymru 2015	Ysgol 2016	ALI 2015	Cymru 2015
Saesneg	100	86	87	100	94	93	100	90	90
Cymraeg	95	87	87	100	94	93	98	90	90
Mathemateg	100	88	88	100	95	92	100	91	90
Gwyddoniaeth	100	91	90	100	96	93	100	93	91
DPC	100	85	85	100	94	91	100	89	88

**Perfformiad yr ysgol dros amser (2012 - 2016)****Nodiadau:**

- Mae'r ffigurau ar gyfer Cymraeg yn cyfeirio at gyraeddaiad Cymraeg iaith gyntaf yn unig
- DPC = Dangosydd Pynciau Craidd. I sicrhau DPC, mae'n rhaid i ddisgybl gyflawni o leiaf lefel 4 disgwyliedig mewn Mathemateg a Gwyddoniaeth a naill ai Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf
- Os nad oedd unrhyw ddisgyblion yn gymwys i'w hasesu mewn pwnc ar gyfer blwyddyn benodol bydd y graff yn terfynu a dangos bwlich ar gyfer y flwyddyn honno.



Cyfnod Sylfaen (Blwyddyn 2)Ysgol Cymerau
Gwynedd

Rhif yr ALI/Ysgol: 661/2125

Gwybodaeth gymharol yr ysgol: Deilliannau'r Cyfnod Sylfaen 2016

Canran o fechgyn, merched a disgyblion yn cyrraedd y deiliant disgwylidig, o leiaf (Deiliant 5+):

	Bechgyn			Merched			Disgyblion		
	Ysgol 2016	ALI 2015	Cymru 2015	Ysgol 2016	ALI 2015	Cymru 2015	Ysgol 2016	ALI 2015	Cymru 2015
PSD	84	93	92	100	98	97	94	96	95
LCW	74	83	88	97	94	95	88	88	91
LCE	0	50	84	0	92	92	0	78	88
MDT	79	88	87	94	93	92	88	90	90
DCS	74	82	83	94	92	91	86	87	87

**Perfformiad yr ysgol dros amser (2012 - 2016)****Nodiadau:**

- Dim data hanesyddol ar gael
- Meysydd Dysgu: PSD = Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol; LCW = Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu (yn y Gymraeg); LCE = Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu (yn Saesneg); MDT = Datblygiad mathemategol; DCS = Dangosydd y Cyfnod Sylfaen. Er mwyn ennill y DCS, rhaid i ddisgybl gyrraedd y deiliant disgwylidig (Deiliant 5+), o leiaf, yn PSD ac MDT ill dau a naill ai LCW neu LCE.
- Os nad oedd unrhyw ddisgyblion yn gymwys i'w hasesu mewn pwnc ar gyfer blwyddyn benodol bydd y graff yn terfynu a dangos bwlich ar gyfer y flwyddyn honno.

6. (Adran Ysgolion Uwchradd yn unig)**7. Presenoldeb Yr Ysgol 2015/16**

Presenoldeb = 95%

Absenoldebau Gydag Awdurdod = 4.5%

Absenoldebau Heb Awdurdod = 0.5%

Mae'r canran yn unol a tharged yr ysgol o 95%

8. (Adran Ysgolion Uwchradd yn unig)**9. Cysylltiadau Gyda'r Gymuned:**

Bu nifer o gysylltiadau gyda'r gymuned yn ystod y flwyddyn gan gynnwys:

- Cefnogi elusennau lleol megis Plant Mewn Angen a Macmillan.
- Ymweliadau bugeiliol gan yr heddlu lleol
- Paratoi at Eisteddfod yr Urdd
- Ymweliadau rheolaidd i'r dref i gynnal gwaith maes
- Cynnig profiad gwaith i ddisgyblion Ysgolion Uwchradd / Coleg Meirion Dwyfor / Coleg Menai
- Perfformio yng nghyngerdd Cofio Cynan

Ceir rhestr lawn o'r ymweliadau a'r ymwelwyr yng nghofnodion llawn y llywodraethwyr ar gael o'r ysgol ac mae'r Llyfr Lloffion sydd yn cael ei gadw yng nghyntedd yr ysgol yn cofnodi amryw o ddigwyddiadau lle mae llun wedi bod yn y wasg leol.

10. Targedau Perfformiad Yr Ysgol**Cyfnod Sylfaen 2015-16****IAITH**

Nifer a gyrhaeddodd eu targed neu uwch	37 (74%)
Nifer a gyrhaeddodd yn uwch na'u targed	3 (6%)
Nifer a fethodd gyrraedd eu targed	13 (26%)

MATHEMATEG

Nifer a gyrhaeddodd eu targed neu uwch	42 (86%)
Nifer a gyrhaeddodd yn uwch na'u targed	3 (6%)
Nifer a fethodd gyrraedd eu targed	7 (14%)

PERSONOL A CHYMDEITHASOL

Nifer a gyrhaeddodd eu targed neu uwch	47 (94%)
Nifer a gyrhaeddodd yn uwch na'u targed	1 (2%)
Nifer a fethodd gyrraedd eu targed	3 (6%)

CA2 2015-16**CYMRAEG**

Nifer a gyrhaeddodd eu targed neu uwch	39 (95%)
Nifer a gyrhaeddodd yn uwch na'u targed	4 (10%)*
Nifer a fethodd gyrraedd eu targed	2 (5%)

SAESNEG

Nifer a gyrhaeddodd eu targed neu uwch	41 (100%)
Nifer a gyrhaeddodd yn uwch na'u targed	8 (20%)*
Nifer a fethodd gyrraedd eu targed	0 (0%)

MATHEMATEG

Nifer a gyrhaeddodd eu targed neu uwch	41 (100%)
Nifer a gyrhaeddodd yn uwch na'u targed	1 (2.5%)
Nifer a fethodd gyrraedd eu targed	0 (0%)

GWYDDONIAETH

Nifer a gyrhaeddodd eu targed neu uwch	41 (100%)
Nifer a gyrhaeddodd yn uwch na'u targed	1 (2.5%)
Nifer a fethodd gyrraedd eu targed	0 (0%)

Targed Presenoldeb ar gyfer 2016/17 ydi 95.5%.

11. Nodau a Chyflawniadau Chwaraeon

Mae'r ysgol yn rhoi bri a statws i amrywiaeth o weithgareddau chwaraeon a gwneir defnydd o'r neuadd, Canolfan Hamdden Dwyfor, adnoddau Ysgol Glan y Môr a Chlwb Chwaraeon Pwllheli i gynnig amrediad o chwaraeon.

'Rydym yn defnyddio'r Ganolfan Hamdden i ddatblygu sgiliau nofio ac i gynnal cystadleuaeth Triathlon blynyddol i blant hynaf yr ysgol. Yn ogystal am y gweithgareddau uchod, defnyddir neuadd yr ysgol ar gyfer gweithgareddau dawns a gymnasteg.

Cymerwyd rhan mewn cystadlaethau pel droed, criced, hoci, ac athletau dalgyloch ar gyfer plant CA2. Enillodd y tîm pêl droed (BI3/4 a BI5/6) dwrnament a drefnwyd ymysg ysgolion lleol i gasglu arian i'r Wyl Gerdd Dant. Hefyd, bu tim 11 bob ochr BI5 a 6 yn cymryd rhan mewn gemau cyfeillgar amrywiol yn ysgolion Eifion Wyn, Maesincla, Maenofferen a Bro Lleu.

Mae'r ysgol yn trefnu a hybu'r lluo o glybiau chwaraeon (gan gynnwys trefnu triathlon i ddisgyblion B5/B6 am y tro cyntaf eleni) ac yn dathlu llwyddiannau'r plant yn gyhoeddus e.e. yn ystod gwasanaethau boreol a gosodir cofnod yn y llyfr lloffion sydd yng nghyntedd yr ysgol.

12. Polisiau a Strategaethau

Adolygwyd amryw o bolisiau'r ysgol yn ystod y flwyddyn. Mae copïau o'r polisiau ar gael yn yr ysgol.

13. Dyddiadau'r Tymhorau

GWYLIAU YSGOL

	2016-17	
TYMOR Y NADOLIG	01/09/16 ~ 16/12/16	CHRISTMAS TERM
Diwrnod HMS	01/09/16 02/09/16 31/10/16	INSET
Hanner Tymor	24/10/16 – 28/10/16	Half Term
Gwyliau Nadolig	19/12/16 – 30/12/16	Christmas Holidays
TYMOR Y GWANWYN	04/01/2017 ~ 07/04/17	SPRING TERM
Diwrnod HMS	03/01/2017	INSET
Hanner Tymor	20/02/17 – 24/02/17	Half Term
Gwyliau'r Pasg	10/04/17 – 21/04/17	Easter Holidays
TYMOR YR HAF	24/04/2017 ~ 21/07/17	SUMMER TERM
Calan Mai	01/05/17	May day
Hanner Tymor	29/05/17 – 02/06/17	Half Term
Gwyliau'r Haf	24/07/17	Summer Holidays

SESIYNAU'R YSGOL:

Sesiwn y Bore

9:00 – 11:00 (Meithrin)
9.00 - 12.00
9.00 - 12.00

Sesiwn y Prynawn

1.00 – 3:00 (Meithrin)
1.00 - 3.00 (Cyfnod Sylfaen)
1.00 - 3.30 (Cyfnod Allweddol 2)

14. Newidiadau i'r Prosbectws Ysgol

Cyhoeddir llyfryn Gwybodaeth i Rhieni yn flynyddol sy'n cynnwys gwybodaeth am drafnidiaeth a rheolau'r ysgol. Mae copi o'r llyfryn ar gael ar wefan yr ysgol gyda chopi papur ar gael yn yr ysgol ar gais rhieni. Ar ddechrau pob blwyddyn addysgol cyflwynir y llawlyfr i'r rhieni. Fe all eu hysbysu am newidiadau ym mholisiau'r ysgol.

15. Cwricwlwm

Fel pob ysgol arall mae Ysgol Cymerau yn dilyn Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru ac agweddau o'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol. Mae crynodeb o gwricwlwm yr ysgol yn ein llawlyfr ysgol.

Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yr ysgol:

Amcan yr ysgol yw adnabod y plant gyda ADY yn fuan er mwyn gallu cynnig y ddarpariaeth orau a mwyaf cynhwysfawr y gellir ar eu cyfer gan helpu'r disgyblion gyrraedd eu llawn potensial.

I'r perwyl hwn mae Cynlluniau Addysg Unigol manwl yn cael eu paratoi ar gyfer y plant a byddwn yn adolygu'r rhain gyda'r rhieni. Cyd-gysylltydd ADY Ysgol Cymerau ydi Mrs Helen Vaughan Jones a Mrs Siân Watson yw'r lywodraethwraig sydd yn gyfrifol am ADY. Mae'r ysgol yn targedu pob plentyn sydd ar gam anghenion '**Cymorth Ysgol**' (cymorth wedi ei drefnu a'i dalu amdano gan yr ysgol) neu '**Cymorth Ysgol +**' (cymorth gan yr ysgol a gan asiantaeth arall) i gyrraedd y lefelau disgwylidiedig.

Nid ydym yn gosod yr un targed i ddisgyblion sydd ar **yr hen Gyfnod 3*** neu ar **Ddatganiad** (plant sydd fel arfer angen cymhorthydd yn y dosbarth i'w helpu am gyfnodau amrywiol) yn enwedig yn yr agwedd o waith ble maent yn cael trafferthion. Mae targedau heriol o fewn eu gallu yn cael eu gosod i'r disgyblion yma. Mae nifer y plant ym mhob blwyddyn yn weddol uchel, ac mae hyn yn effeithio ar ganlyniadau'r ysgol. Gweler adroddiad cyfarfodydd y llywodraethwyr am fwy o fanylion. Ceir copi o bolisi ADY yn yr ysgol.

Disgyblion Anabl:

Bydd yr ysgol yn sicrhau mynediad llawn i ddisgyblion sydd ag anableddau ac mae ystafell therapi bwrpasol yn yr ysgol. Mae polisiau'r ysgol yn sicrhau na fydd disgyblion anabl yn cael eu trin yn llai ffafriol na'r disgyblion eraill

16. Categori Iaith

Mae'r ysgol yn ysgol ddwyieithog.

17. Defnydd o'r Gymraeg

Y Gymraeg yw prif iaith yr ysgol.

Y Gymraeg yw prif iaith Y Cyfnod Sylfaen – bydd plant nad ydynt yn siarad Cymraeg yn cael eu 'trochi' yn yr iaith a buan iawn y dônt i siarad yn rhugl.

Y Gymraeg yw prif iaith gyfathrebu yr ysgol. Nod siarter Iaith Ysgolion Cymraeg Gwynedd yw i bob plentyn siarad Cymraeg ar y coridorau ac allan ar yr iard.

Yn unol a Pholisi Iaith Gwynedd addysgir pob plentyn drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd Saesneg yn cael ei chyflwyno yn anffurfiol ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen ac yn ffurfiol o Flwyddyn 3 ymlaen. Ein nod yw i bob plentyn fod yn rhugl ddwyieithog yn gadael yr ysgol.

Os bydd plentyn di-gymraeg yn dod i'r ysgol, bydd yn cael ei 'drochi' yn yr iaith yn y Cyfnod Sylfaen ac yn mynd i'r Uned Iaith leol (Llangybi) am dymor yn Cyfnod Allweddol 2.

18. Toiledau'r Ysgol

Mae toiledau pwrpasol, gan gynnwys toiledau 'bach' yn y Cyfnod Sylfaen - cymhareb tua 1:10

Mae toiledau bechgyn a merched ar wahân yn CA2 – cymhareb tua 1:10

Mae toiledau'r staff yng nghyntedd yr ysgol.

Bydd y toiledau yn cael eu glanhau yn ddyddiol.